**Paid ag ofni**

O paid ag ofni, dywed Duw
Rwy'n addo, gwnaf dy achub di
A galwaf ar dy enw'n glir
Ti'n eiddo i mi

Pan fyddi'n mynd drwy'r dyfroedd dwfn
Mi fyddaf yno gyda thi
Wrth groesi'r afon wyllt ei llif
Ni suddi di

Pan fyddi'n mynd drwy fflamau'r tân
Ni chaiff eu gwres dy losgi di
Ni chei dy ddifa f'annwyl un,
Dy Dduw wyf fi

Mor werthfawr yn fy ngolwg wyt
Gwlad gyfan roddwn drosot ti
Fy ngogoneddus, annwyl un
Fe'th garaf di

I bedwar ban y byd yr awn
I'th gasglu yn fy mynwes i
Mae f'enw arnat, fi a'th wnaeth;
Rwyf gyda thi

geiriau: Cass Meurig (addasiad o Eseia 43) tôn: Mil Harddach Wyt (tradd)